Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o’r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf,

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd eich plentyn yn cael ei gefnogi i ddysgu a defnyddio’r eirfa a’r gystrawen Gymraeg gywir trwy sesiynau drilio, gwaith grŵp a phartner, drama, a thrafodaethau dosbarth. Bydd ffocws ar ddatblygu sgiliau gwrando, dilyn cyfarwyddiadau syml ac ymateb i eraill. Bydd disgyblion yn dysgu sut i drin llyfrau fel darllenydd-yn dilyn print o'r chwith i'r dde, adnabod llythrennau a geiriau cyfarwydd a defnyddio lluniau i’w helpu i ailadrodd straeon. Datblygir sgiliau ysgrifennu gyda ffocws ar ffoneg a llunio brawddegau syml, gan gyflwyno atalnodi sylfaenol ac ymwybyddiaeth o genrau gwahanol. Byddent yn ymarfer gwneud marciau a rheoli pensil yn rheolaidd er mwyn eu helpu i ffurfio llythrennau. Am ragor o wybodaeth gweler y Fframwaith Llythrennedd ar wefan yr ysgol.

## Mathemateg a rhifedd

Sgiliau Rhif yw ein prif yrrwr ac rydym yn ymarfer y sgiliau yma yn gyson trwy brofiadau chwarae a dysgu bywyd go iawn ac o fewn cyd-destunau mesur, defnyddio data, algebra cynnar a geometreg. Rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant. Nid cael yr ateb yn gywir yn unig sy’n bwysig – rydym yn siarad llawer am y gwaith a’r dulliau gan drafod beth maent yn gwybod yn barod neu beth sy’n mynd i’w helpu i ddatrys y broblem.

Am wybodaeth pellach, gwelwch y fframwaith rhifedd ar wefan yr Ysgol.

## Thema

Ein thema y tymor yma yw ‘Perthyn’. Byddwn yn trafod ein hunain, edrychiad syml, teulu, ble rydym yn byw, pwy a beth sy’n perthyn i’r cartref ac i’r ysgol ac yn trefnu digwyddiadau pwysig yn ein bywydau (bod yn fabi, cerdded, penblwydd, dod i’r ysgol ac ati).
Byddwn yn trafod yr hyn sy’n ein gwneud ni’n arbennig ac i ble ‘rydym yn perthyn. Byddwn yn dysgu amrywiaeth o ganeuon a dawnsfeydd traddodiadol Cymreig, yn dysgu enwau offerynnau taro syml ac yn dechrau tynnu ffotograffau a lluniau pensil / graffig o’n hunain neu bobl eraill (portreadau). Byddwn yn dosbarthu ac yn enwi pethau byw syml: planhigion, pobl ac anifeiliaid. Byddwn yn disgrifio sut ‘rydym yn debyg ac yn wahanol i’n gilydd ac yn edrych ar sut ‘rydym wedi tyfu ers bod yn fabis. Byddwn yn trafod y synhwyrau ac yn deall bod ystod o ffynonellau sain ar gael.**Byddwn yn gweithio ar garreg droedio addas i bob unigolyn wrth astudio’r thema yma.**

## Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, byddwn yn astudio gymnasteg a dawns, gan ystyried yr effaith mae ymarfer corff yn cael ar ein cyrff a’n iechyd meddwl.
Themau Jigso y tymor yma yw: Fi yn Fy Myd a Dathlu Gwahaniaethau. Byddwn yn trafod a deall sut deimlad yw perthyn a’n bod ni’n debyg ac yn wahanol.


**Dosbarth: Melangell**

**Blwyddyn: Derbyn**

## Pethau i’w Cofio

Cit ymarfer corff ar Ddydd Mercher.
Dillad coedlan bob yn ail Dydd Iau. (Dyddiad i’w gadarnhau)
Labelwch BOB eitem bersonol os gwelwch yn dda. Dilynwch ni ar Instargram – Ysgol Penalltau





www.ysgolpenalltau.com @ @penalltau 01443 862974